Pecyn Pontio **Ffrangeg**

Croeso i'r pwnc a'r Adran

Bonjour et bienvenue! Croeso i'r cwrs UG Ffrangeg. Rydym yn edrych ymlaen i gael dechrau ar y daith tuag at bod yn rhugl gyda chi. Mae'r cwrs yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau diddorol, megis tueddiadau diwylliant ieuenctid, perthnasoedd a diwylliant rhanbarthol. Byddwch hefyd yn dysgu am fywyd Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn Ffrainc gan astudio'r ffilm La Rafle.

Yn ystod y cwrs byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwledydd neu'r cymunedau Ffrangeg eu hiaith drwy siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/ffrangeg-ug-safon-uwch/#tab_overview

Gwaith Cychwynnol

https://www.youtube.com/watch?v=qXOmq3tcmnw
Gwyliwch rhaglun y ffilm 'La Rafle'. Byddech yn astudio'r ffilm yma fel rhan o'r cwrs. Ystyriwch beth yw themâu, naws a chyd-destun y ffilm o'r hyn a welwn yn y rhaglun. Gwnewch nodiadau, a chewch trafod hyn ymhellach ar lein gyda disgybl arall os ydych yn dymuno.

https://youtu.be/urMz-iKUMe0
Bydd un o'r themâu byddwn yn ei astudio yn ymwneud â strwythur teulu, a'r berthynas sydd gennym gyda theulu a ffrindiau. Gwyliwch y fideo yn y linc uchod gan roi 'pause' weithiau i nodi lawr unrhyw eiriau rydych wedi eu hadnabod. Yna gwyliwch y fideo eto gan ddefnyddio www.wordreference.com er mwyn ceisio darganfod ystyr rhai agweddau (efallai bod cliwiau yn y lluniau/ysgrifen). Yn olaf, lluniwch restr ar ffurf pwyntiau bwled yn nodi lawr 5 enghraifft o bethau mae rhieni yn gyfrifol amdano yn ôl y fideo.

https://www.1jour1actu.com/culture/fashion-week
Bydd un o'r themâu eraill byddwn yn edrych arno yn ymwneud â ffasiwn/'youth trends'. Darllenwch yr erthygl yn y linc, gan ddefnyddio wordreference.com i chwilio am eiriau anghyfarwydd. (Peidiwch a defnyddio Google Translate; cofiwch does dim angen deall pob dim er mwyn cael 'gist' y darn, felly bydd edrych am eiriau unigol mewn geiriadur yn llawer gwell ar gyfer eich sgiliau).

Gosod gwaith ymchwil

- La vie des juifs en France pendant la Seconde Guerre mondiale – Bywyd Iddewon yn Ffrainc yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafodd Ffrainc ei oresgyn gan yr Almaen yn 1940. Sut effaith cafodd hyn ar fywyd Iddewon yn Ffrainc? Beth oedd La Rafle du Vélodrome d'Hiver? Cwblhewch set o nodiadau bydd yn gymorth i chi wrth ddod i ddeall cyd-destun y ffilm.
- Ymchwiliwch a gwnewch nodiadau am un o ardaloedd Ffrainc e.e. Llydaw, neu un o'r gwledydd francophone i ddarganfod mwy am ddiwylliant yr ardal. Cewch chwilio am y bwyd, cerddoriaeth, ffilmiau, hanes, economi, llenyddiaeth a.y.y.b.
- Ymchwiliwch i mewn i system addysg Ffrainc i bobl ifanc rhwng 15-18 oed. Fersiwn Ffrainc o 'Lefel A' ydy 'le baccalauréat', sut mae system 'le bac' yn gweithio a sawl opsiwn wahanol sydd yno? Nodwch eich canfyddiadau ar ffurf pwyntiau bwled, a meddyliwch pa opsiwn fyddech chi wedi ei ddewis pe bae chi'n ddisgybl yn Ffrainc.

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

https://languagesonline.org.uk/Hotpotatoes/index.html

https://www.1jour1actu.com/

Heinemann A Level French Grammar Practice (https://www.amazon.co.uk/Heinemann-Level-French-Grammar-Practice/dp/0435396501)

http://www.filmeducation.org/pdf/resources/primary/La%20Rafle%20Resource.pdf

DVD y ffilm 'La Rafle' ar gael ar www.amazon.co.uk

https://www.thecinemaholic.com/netflix-french-shows/
Beth am wylio ffilm/cyfres Ffrangeg ar Netflix neu Youtube? (Ar Netflix mae angen newid y 'settings' i sicrhau bod yr 'audio' yn Ffrangeg a'r isdeitlau yn Saesneg).

https://www.1jour1actu.com/culture/une-selection-de-livres-a-devorer er mai awgrymiadau o lyfrau i blant Ffrangeg ydy rhain, mae'n ffordd dda i wella eich iaith – beth am chwilio am 'Harry Potter à l'école des sorciers' ar amazon.fr er enghraifft? Byddai darllen llyfr rydych eisoes wedi ei ddarllen yn Gymraeg/Saesneg yn syniad gwych er mwyn hwyluso dealltwriaeth.

https://www.youtube.com/watch?v=dlfSm3yjRss&list=PL8UVitep3pmhSptjXS8uRnL9rgNCqJxll
dyma 'playlist' o ganeuon Ffrangeg, mae gwrando ar yr iaith yn gwella dealltwriaeth ac ynganiad – hwyrach byddwch yn gallu dod o hyd i ganeuon gwahanol i'r rhain hefyd!

Mwy ar y dudalen nesaf

Tasg

Byddai'n syniad da adolygu'r gwaith am amseroedd amrywiol a gwneud nodiadau adolygu amdanynt. Cewch adolygu rhain i gyd wedyn ar languages-online neu ar safle CBAC.
http://consortiwmol16.cymru/courses/french01/story_html5.html

Yr amseroedd pwysig (gyda'r enw yn Saesneg a Ffrangeg hefyd):

- presennol / present / présent
- perffaith / perfect / passé composé
- amherffaith / imperfect / imparfait
- dyfodol / future / futur
- amodol / conditional / conditionnel